# Newidiadau i BBC Radio Foyle a BBC Asian Network

## Ymgynghoriad ar geisiadau'r BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 29 Mai 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 26 Mehefin 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, ewch i ofcom.org.uk.

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ... 3

2. Cefndir ... 5

3. Cwota newyddion a materion cyfoes BBC Radio Foyle ... 7

4. Cwota newyddion a materion cyfoes BBC Asian Network ... 14

## Atodiad

A1. Y Fframwaith Cyfreithiol ... 22

A2. Amodau diwygiedig arfaethedig y Drwydded Weithredu ... 25

A3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ... 26

A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ... 28

A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ... 31

A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ... 32

A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad ... 34

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi safbwynt cychwynnol Ofcom ar gais y BBC i wneud dau newid i'w Drwydded Weithredu. Mae wedi gofyn am leihau'r cwota newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Radio Foyle o 1,043 awr i 710 awr ym mhob blwyddyn ariannol. Mae hefyd wedi gofyn am leihau'r cwota newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Asian Network o 1,224 awr i 675 awr y flwyddyn. Yn y ddau achos, mae'r BBC wedi egluro bod y newidiadau'n cael eu sbarduno gan ei nod o wasanaethu anghenion cynulleidfaoedd yn well ac o ganlyniad i fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau ar-lein a digidol ar adeg o gyfyngiadau ariannol sylweddol.

1.1 O dan Ddiben Cyhoeddus 1, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas. Wrth i arferion cynulleidfaoedd barhau i newid, mae'n bwysig bod y BBC yn gallu darparu allbwn newyddion a materion cyfoes lle mae cynulleidfaoedd yn fwyaf tebygol o ddod o hyd iddo, ac mewn ffyrdd sy'n taro tant â nhw.

1.2 Mae cynulleidfaoedd o bob oed, ac yn enwedig y rhai dan 35 oed, yn parhau i symud ar-lein, gan ddibynnu llai ar wasanaethau teledu a radio a ddarlledir traddodiadol. Nid yw'r tueddiadau'n wahanol yng Ngogledd Iwerddon ac er bod radio lleol yn dal yn ffynhonnell allweddol ar gyfer newyddion a gwybodaeth, mae llwyfannau ar-lein bellach yn cael eu nodi fel un o'r prif ffyrdd (ochr yn ochr â theledu) y mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar newyddion yng Ngogledd Iwerddon. Mae cynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig yn adlewyrchu'r tueddiadau hyn. Ar yr un pryd, mae proffil oedran cynulleidfa gorsaf BBC Asian Network, sy'n targedu cynulleidfaoedd o dan 35 oed, wedi codi. Yn y cyd-destun hwn, mae'r BBC wedi gwneud cais i newid amodau ei Drwydded Weithredu ar gyfer BBC Radio Foyle a BBC Asian Network.

1.3 Ar gyfer **BBC Radio Foyle**, cyhoeddodd y BBC gynlluniau arbedion ac ailfuddsoddi ar gyfer ei wasanaethau yng Ngogledd Iwerddon ym mis Tachwedd 2022. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen 30 munud newydd i gymryd lle rhaglen frecwast dwy awr BBC Radio Foyle. Fe wnaethom ystyried y newidiadau hyn, yn ogystal â newidiadau ehangach i radio lleol, ddechrau 2023 ochr yn ochr â'n hadolygiad o'r Drwydded Weithredu, gan gydnabod newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd a chynlluniau'r BBC i fuddsoddi mwy ar-lein i fodloni'r anghenion hyn. Rhoddodd newidiadau BBC Radio Foyle ar waith ym mis Mai 2023 yn y lle cyntaf, ac wedyn cynyddodd hyd y sioe frecwast i awr ym mis Ionawr 2024. Ar y pryd, dywedodd y BBC wrthym na fyddai angen newid ei Drwydded Weithredu ar gyfer y cynlluniau hyn. Fodd bynnag, dywedodd y BBC wrthym ym mis Mehefin 2024 ei fod wedi gwneud camgymeriad yn peidio â gofyn am newid ac, o ganlyniad, ei fod wedi torri ei amod newyddion a materion cyfoes 4.66.2 ar gyfer 2023/24. Nododd yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24 y byddai'n gofyn am ddiwygiad i newid yr amod.

1.4 O ran **BBC Asian Network**, mae'r BBC wedi cyhoeddi nifer o newidiadau arfaethedig i'w amserlen gyda'r nod o newid ffocws yr orsaf er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd iau yn well, yn enwedig y rhai rhwng 25 a 34 oed. Pe baen nhw'n cael eu rhoi ar waith, byddai'r newidiadau'n golygu na fyddai'r BBC yn gallu cyrraedd ei gwota newyddion a materion cyfoes. Dyma'r newidiadau arfaethedig:

a) Datgomisiynu sioe *Ankur Desai* (sy'n cael ei darlledu o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 3pm a 6pm ar hyn o bryd) a'i theitlau cysylltiedig, *60 Minutes* ac *Asian Network News Presents*.
b) Yn ei le, comisiynu rhaglen newyddion a materion cyfoes newydd, dwy awr o hyd, ar nos Lun a darlledu bwletinau *Newsbeat* ychwanegol cydamserol (gyda BBC Radio 1 a BBC Radio 1 Xtra) diwedd y prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau (ar hyn o bryd dim ond ar ddydd Gwener mae'r rhaglen *Newsbeat* estynedig diwedd y prynhawn yn cael ei darlledu ar BBC Asian Network).
c) Cyflwyno 10-20 awr ychwanegol o raglenni materion cyfoes annibynnol bob blwyddyn.

1.5 Mae'r BBC hefyd wedi cynnig newidiadau eraill sy'n berthnasol i'n hystyriaeth o gais y BBC, ond nid ydynt yn golygu bod angen amrywio'r Drwydded Weithredu o gwbl. Mae hyn yn cynnwys comisiynu rhaglen newydd yn lle sioe *Ankur Desai*, i'w darlledu yn y prynhawn yn ystod yr wythnos, sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth i gefnogi artistiaid Asiaidd Prydeinig newydd, a chynlluniau i gadw ei rhaglen fusnes, *The Everyday Hustle*.

1.6 Wrth ystyried ceisiadau'r BBC, rydyn ni wedi asesu, ymysg ffactorau eraill, effaith bosib y newidiadau ar sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon a chynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig yn cael eu gwasanaethu'n dda o ran allbwn newyddion a materion cyfoes.

1.7 Rydyn ni hefyd wedi ystyried effaith bosib newidiadau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

### Yr hyn rydyn ni'n ei gynnig

Rydyn ni'n cynnig cymeradwyo ceisiadau'r BBC i leihau'r cwotâu newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle a BBC Asian Network. Rydyn ni'n credu y byddai'r cwotâu newyddion diwygiedig yn briodol ar gyfer mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus, ac mae gan y newidiadau'r potensial i fodloni anghenion cynulleidfaoedd o ystyried newidiadau mewn arferion gwylio.

Byddem yn disgwyl i'r BBC fonitro effaith unrhyw newidiadau ar ymgysylltiad cynulleidfaoedd, er mwyn sicrhau, lle bo angen, ei fod yn parhau i addasu i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Er mwyn dal y BBC i gyfrif, yn ogystal â sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i gwotâu, byddem yn parhau i asesu perfformiad. Byddai hyn yn cynnwys sut mae'r BBC yn darparu cynnwys newyddion a materion cyfoes i gynulleidfaoedd ar draws ei holl wasanaethau, gan gynnwys monitro bodlonrwydd cynulleidfaoedd, ac adrodd ar hyn fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol. Nodwn hefyd ein gallu parhaus i ymyrryd os bydd pryderon yn codi ynghylch perfformiad y BBC.

Rydyn ni nawr yn gofyn am safbwyntiau gan bartïon â diddordeb neu bartïon y mae hyn yn effeithio arnynt ynghylch y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn erbyn 26 Mehefin 2025.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir

## Cais y BBC

2.1 Ym mis Ebrill 2025, cyflwynodd y BBC gais i Ofcom am newidiadau i'w Drwydded Weithredu ("y Cais"). Yn gryno, mae wedi gofyn am y newidiadau canlynol:

a) Lleihau faint o gynnwys newyddion a materion cyfoes y mae'n rhaid ei ddarlledu ar BBC Radio Foyle yn ystod pob blwyddyn ariannol, o 1,043 awr i 710 awr.
b) Lleihau faint o gynnwys newyddion a materion cyfoes y mae'n rhaid ei ddarlledu ar BBC Asian Network yn ystod pob blwyddyn ariannol, o 1,224 awr i 675 awr.

## Ein dull gweithredu

2.2 Ein rôl ni yw sicrhau bod y BBC yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa a'i ddal i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Dibenion Cyhoeddus. Rydyn ni hefyd yn rheoleiddio safonau golygyddol a phrosesau cwyno'r BBC, ac yn gweithio i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.3 Fel rhan o'n gwaith o reoleiddio'r BBC, mae'n rhaid i ni o dan Siarter y BBC a Chytundeb y BBC bennu Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC. Mae'r Drwydded Weithredu'n cynnwys cyfres o amodau rheoleiddio yr ydym yn ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, yn sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw, ac yn sicrhau bod yr holl gynulleidfaoedd ar draws y DU yn cael eu gwasanaethu'n dda. Fe wnaethom gyhoeddi'r Drwydded Weithredu gyntaf yn 2017 ac ers hynny mae wedi cael ei diwygio sawl gwaith.

2.4 Ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom gyhoeddi Trwydded Weithredu newydd ar gyfer y BBC. Nod y drwydded newydd oedd moderneiddio ein gwaith o reoleiddio'r BBC drwy roi rhagor o hyblygrwydd iddo addasu ac arloesi er mwyn ymateb i anghenion cynulleidfaoedd, gan gynnwys ar ei wasanaethau ar-lein, yn ogystal â diogelu cynnwys pwysig, fel newyddion a materion cyfoes. Fe wnaethom gadw cwotâu newyddion a materion cyfoes i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cryn dipyn o'r cynnwys hwn ar deledu a radio sy'n cael eu darlledu, a phennu amodau newydd i'w gwneud yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwn ar BBC iPlayer a BBC Sounds. Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol ar gael yn Atodiad 1.

2.5 Mae gennym y pŵer i ddiwygio'r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac ag unrhyw berson(au) sy'n briodol yn ein barn ni. Mae'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r Drwydded Weithredu ("y Gweithdrefnau") sy'n egluro sut rydyn ni'n pennu ac yn gweinyddu trefn y Drwydded Weithredu, gan gynnwys nodi'r ystyriaethau rydyn ni'n rhoi sylw iddynt wrth amrywio'r Drwydded Weithredu a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

2.6 Yn ogystal â gofyn am leihau'r cwotâu newyddion a materion cyfoes, mae cyflwyniad y BBC hefyd yn amlinellu newidiadau ehangach, gan gynnwys newid amserlenni a newidiadau golygyddol. Rydyn ni wedi ystyried y cynlluniau hyn, ond nodwn nad yw amserlennu a phenderfyniadau golygyddol yn fater i Ofcom o dan Siarter a Chytundeb y BBC. Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith ac am bennu ei gyfeiriad

strategol a chreadigol. Mae hefyd yn gwbl gyfrifol am yr holl benderfyniadau golygyddol, cyllidebol ac amserlennu.

2.7 Wrth ddod i’n safbwynt cychwynnol, rydyn ni wedi ystyried sut gallai cynigion y BBC effeithio ar gynulleidfaoedd ac ar sut mae’r BBC yn cyflawni’r Genhadaeth a’r Dibenion Cyhoeddus. Rydyn ni hefyd wedi ystyried yr effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gall cynigion sy’n cael effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol arwain at lai o fuddsoddiad a/neu gwmnïau’n gadael neu ddim yn ymuno â’r farchnad. Gall canlyniadau o’r fath roi cynulleidfaoedd dan anfantais drwy arwain at lai o ddewis ac ansawdd.

2.8 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai’n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu’r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae ein hasesiad o’r effaith wedi’i nodi yn yr ymgynghoriad hwn ac yn benodol yn adrannau 3 a 4.

2.9 Rydyn ni hefyd wedi cynnal asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb, sydd wedi’i nodi yn Atodiad 3.

## Yr ymgynghoriad hwn

2.10 Rydyn ni wedi ystyried y Cais ac wedi nodi ein hasesiad cychwynnol a’r amrywiadau arfaethedig i’r Drwydded Weithredu yn y ddogfen hon (os byddwn yn cymeradwyo’r Cais). Rydyn ni’n gofyn am farn rhanddeiliaid ar ein hasesiad cychwynnol a’r newidiadau arfaethedig i’r Drwydded Weithredu, ac yn gwahodd ymatebion erbyn 26 Mehefin 2025. Ewch i Atodiad 4 i gael rhagor o wybodaeth am ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

# 3. Cwota newyddion a materion cyfoes BBC Radio Foyle

## Cefndir

3.1 Mae BBC Radio Foyle yn wasanaeth optio allan FM[1] BBC Radio Ulster sy'n darparu cynnwys newyddion a materion cyfoes, yn ogystal â rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd cymunedol cynulleidfaoedd yng ngogledd-orllewin Gogledd Iwerddon. Mae BBC Radio Foyle hefyd ar gael ar DAB ledled Gogledd Iwerddon ac ar BBC Sounds. Mae Trwydded Weithredu'r BBC yn mynnu ei fod yn darparu 1,043 awr o newyddion a materion cyfoes bob blwyddyn (amod 4.66.2).

3.2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r BBC wedi gwneud cyfres o newidiadau i'w raglenni brecwast a'i fwletinau newyddion bob awr ar BBC Radio Foyle. Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y BBC, fel rhan o gyhoeddiad ehangach ar ddileu nifer o swyddi yng Ngogledd Iwerddon, benderfyniadau golygyddol i newid ei sioe frecwast dwy awr ar BBC Radio Foyle am raglen newyddion brecwast 30 munud (*North West Today*) a lleihau oriau bwletinau newyddion ar y gwasanaeth.

3.3 Yn dilyn y cyhoeddiadau am newidiadau arfaethedig i wasanaethau radio lleol y BBC yn Lloegr ac yn y gwledydd, ysgrifennodd Ofcom at y BBC ym mis Chwefror 2023. Fe wnaethom gytuno bod angen i'r BBC addasu a moderneiddio ei wasanaethau i adlewyrchu newidiadau yn arferion defnyddio cynulleidfaoedd, ond roedden ni wedi amlinellu ei bod yn bwysig bod y BBC yn parhau i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa wrth iddo newid ei gynnwys a'i newyddion lleol. Yn ei ymateb, dywedodd y BBC wrthym, yn dilyn adborth gan randdeiliaid, ei fod wedi penderfynu y byddai ei raglen newyddion 30 munud yn ystod yr wythnos ar BBC Radio Foyle (*North West Today*) yn cael ei darlledu rhwng 8.30 a 9.00, yn hytrach nag yn y slot amser cinio blaenorol. Fe wnaethom gydnabod y newidiadau i'r cynnwys ar BBC Radio Foyle (a BBC Radio Ulster) yn ein datganiad Moderneiddio'r Drwydded Weithredu ym mis Mawrth 2023.[2] Gwnaeth y BBC y newid hwn ym mis Mai 2023. Nid oedd wedi gofyn am newid y Drwydded Weithredu.

3.4 Mewn cyhoeddiad arall ym mis Tachwedd 2023, dywedodd y BBC y byddai rhaglen *North West Today*, o ddechrau 2024 ymlaen, yn cael ei hymestyn i awr yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus. Ar wahân, dywedodd ei fod yn bwriadu cadw'r bwletinau newyddion bob awr ar BBC Radio Foyle tan 3pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn ogystal â'r ddarpariaeth hon ar y radio, nododd y BBC y byddai gwell darpariaeth newyddion i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon ar ei wasanaethau ar-lein, gan gynnwys yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan BBC Radio Foyle.

[1] Gwasanaeth optio allan yw amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli neu orsafoedd y BBC. Gall gwasanaeth 'optio allan' o'r brif sianel neu orsaf i ddarparu cynnwys penodol i gynulleidfaoedd mewn gwahanol leoliadau daearyddol.
[2] Ofcom, Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, t.48.

## Torri amodau'r Drwydded Weithredu

3.5 Ym mis Mehefin 2024, rhoddodd y BBC wybod i ni nad oedd wedi cyrraedd ei gwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle, ar ôl darparu dim ond 651 awr.[3] Dywedodd y BBC wrthym fod camgyfathrebu mewnol wedi golygu bod rhaglenni newyddion nad ydynt yn rhai optio allan (hy rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar BBC Radio Ulster) wedi cael eu cynnwys yn anghywir wrth gyfrifo ei allbwn ar gyfer BBC Radio Foyle, sy'n golygu ei fod yn credu'n anghywir y byddai'n dal yn gallu cyrraedd ei gwota ar gyfer yr amod hwn. Felly, nid oedd wedi cyflwyno cais i newid y Drwydded Weithredu ar yr adeg yr oedd wedi cyhoeddi ei gynlluniau. Dywedodd y BBC wrthym, ar ôl sylwi ar y camgymeriad, ei fod wedi rhoi gwybod i Ofcom y dylai fod wedi gofyn am gael newid y drwydded pan gyhoeddwyd y newidiadau.

3.6 Bellach, mae'r BBC wedi cyflwyno cais i Ofcom ar gyfer newidiadau i'w Drwydded Weithredu mewn perthynas â darparu cynnwys newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle.

# Cais y BBC

3.7 I adlewyrchu cyhoeddiadau blaenorol y BBC am newidiadau i BBC Radio Foyle, a'i lefelau allbwn presennol o ystyried bod y newidiadau eisoes wedi digwydd, mae'r BBC wedi gofyn am leihad i'w gwota newyddion a materion cyfoes ar gyfer y gwasanaeth o 1,043 awr i 710 awr ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r newidiadau hyn wedi'u nodi yn Atodiad 2.[4]

3.8 Mae'r BBC yn nodi bod y newidiadau i BBC Radio Foyle yn cyd-fynd â newidiadau ar draws ei ystafelloedd newyddion. Ychwanegodd fod y rhain yn cynnwys ailgydbwyso'r staff a'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol, ac sydd ar gael yn eang, gan gynnwys ar lwyfannau newydd.[5] Mae'r BBC hefyd yn dweud bod hyd byrrach *North West Today* a'r ffaith ei fod yn ailflaenoriaethu adnoddau i gefnogi gwell presenoldeb newyddion ar gyfer straeon sy'n ymwneud â Foyle ar ei lwyfannau newyddion digidol yn golygu nad oes modd cyflawni'r cwota presennol mwyach.

# Y cyd-destun

3.9 Mae'r adran hon yn edrych ar y cyd-destun ehangach sy'n gysylltiedig â chynnig y BBC, gan nodi ei amgylchiadau ariannol ac arferion cynulleidfaoedd o ran defnyddio cyfryngau, sy'n newid. Wrth lunio ein barn gychwynnol, rydyn ni wedi asesu'r ffactorau hyn yn ofalus i benderfynu sut byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar gynulleidfaoedd a'r goblygiadau posib ar gyfer cystadleuaeth deg ac effeithiol.

## Mae'r BBC yn wynebu cyfyngiadau ariannol sylweddol

3.10 Mae'r BBC yn gyffredinol wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol. Gostyngodd ei incwm 30% mewn termau real rhwng 2010 a 2020, cyn dwy flynedd o gyllid gwastad, sy'n cyfateb i golled o dros £1 biliwn bob blwyddyn. Mae'r BBC wedi dweud bod hyn wedi golygu

[3] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023/24, t.135.
[4] Mae amod 4.66.2 y Drwydded Weithredu yn mynnu bod o leiaf 1,043 awr (gan gynnwys ailddarllediadau) yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle ym mhob Blwyddyn Ariannol.
[5] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu.

diwygiadau mawr i gynnal gwerth i dalwyr ffi'r drwydded, gan gynnwys dileu swyddi dros 1,800 aelod o staff a thorri dros 1,000 awr o gynnwys ar y teledu.

3.11 Mae hyn hefyd wedi effeithio ar y BBC yng Ngogledd Iwerddon ac yn y cyd-destun hwn y gwnaeth y BBC ei gyhoeddiad ym mis Tachwedd 2022 a oedd yn cynnwys y cynlluniau arbed costau ac ailfuddsoddi a amlinellir uchod. Eglurodd ei fod yn bwriadu moderneiddio ei wasanaethau lleol drwy leihau gwariant ar ei wasanaethau darlledu, drwy rannu mwy o gynnwys rhwng gorsafoedd radio lleol, a drwy ailfuddsoddi'r arbediad hwn yn ei wasanaethau digidol ac ar-lein. Dywedodd y byddai hyn yn gwella cyrhaeddiad, effaith a gwerth ei wasanaethau newyddion ar gyfer cynulleidfaoedd y BBC yng ngogledd-orllewin Gogledd Iwerddon.

## Wrth i arferion cyfryngau cynulleidfaoedd barhau i newid, mae'n rhaid i'r BBC addasu ei wasanaethau

3.12 Mae arferion cynulleidfaoedd o ran cael gafael ar newyddion yn parhau i newid. Yn 2018, teledu oedd y llwyfan a oedd yn cael ei ddefnyddio amlaf ar gyfer newyddion ymysg cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon (dywedodd 78% o oedolion dros 16 oed yng Ngogledd Iwerddon eu bod yn defnyddio'r teledu ar gyfer eu newyddion), wedi'i ddilyn gan ar-lein (ac eithrio cyfryngau cymdeithasol) (51%), cyfryngau cymdeithasol (41%) a radio (40%). Mae'r data diweddaraf yn dangos bod cyfran debyg o bobl nawr yn cael eu newyddion o ffynonellau ar-lein (65%) â theledu sy'n cael ei ddarlledu (64%), wedi'u dilyn gan radio a chyfryngau cymdeithasol (46% ar gyfer y ddau). Ymysg pobl dros 55 oed (un o'r grwpiau oedran mwyaf o ran gwrandawyr BBC Radio Ulster/Foyle), teledu sy'n cael ei ddarlledu yw'r llwyfan sy'n cael ei grybwyll fwyaf o hyd ar gyfer newyddion (91%), yna radio ac ar-lein (52% ar gyfer y ddau).[6]

3.13 Mae cyfran uchel o gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon (96%) yn dweud bod ganddynt ddiddordeb mewn newyddion a gwybodaeth leol, ac mae'r BBC yn dal yn un o brif ffynonellau'r cynnwys hwn. Ar hyn o bryd mae'n cyrraedd 65% o gynulleidfaoedd newyddion yng Ngogledd Iwerddon ar draws teledu, radio ac ar-lein, ac mae cyfran yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n enwi BBC Radio Ulster/Foyle fel eu prif ffynhonnell newyddion wedi aros yn gyson ar 23%.[7]

3.14 Hefyd, BBC Radio Ulster/Foyle yw'r bedwaredd ffynhonnell fwyaf poblogaidd ar gyfer newyddion lleol, sy'n wahanol i wasanaethau radio lleol eraill y BBC yng ngweddill y DU, sydd y tu allan i'r 10 prif ffynhonnell ar gyfer newyddion lleol.[8] Gwelwn hefyd fod gwasanaethau ar-lein y BBC yn parhau i dyfu yng Ngogledd Iwerddon, gan gynyddu 26% ers 2018. Mae 19% o oedolion bellach yn dweud eu bod yn defnyddio'r gwasanaethau hyn i gael newyddion.[9]

### Ychydig o ddata sydd ar gael ar gyfer mesur cynulleidfaoedd BBC Radio Foyle

3.15 Mae BBC Radio Foyle yn gwasanaethu poblogaeth oedolion o 136,000 a dim ond Tiriogaethau Dibynnol y Goron Jersey a Guernsey sy'n llai o ran yr ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan orsafoedd radio lleol/cenedlaethol y BBC. O ganlyniad, mae'r BBC yn

[6] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2018 i 2025
[7] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025
[8] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau a Newyddion Lleol 2025. Nid yw'n bosib ynysu ymatebion BBC Radio Foyle oherwydd maint y samplau.
[9] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2018 i 2025

dweud ei bod yn anodd monitro perfformiad BBC Radio Foyle gan fod ei ffigurau gwrando yn rhy fach i'w cyhoeddi ar RAJAR ac yn hytrach maen nhw wedi'u cyfuno â BBC Radio Ulster.[10] Mae dadansoddiad y BBC yn dangos mai cyrhaeddiad cyfun y ddwy orsaf radio oedd 454k yn Ch4 2024, sy'n ostyngiad o tua 60k ers Ch4 2021.[11] Oedran cyfartalog y gwrandawyr yw 59 oed. Gellir gwneud cymariaethau cyfyngedig rhwng gwrando ar BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle gan ddefnyddio data BBC Sounds, a nodir isod.[12]

# Ein hasesiad a'n casgliadau cychwynnol

## Yr effaith ar gynulleidfaoedd

### Lleihau'r cwota newyddion a materion cyfoes

3.16 Ein rôl ni wrth asesu'r cais hwn yw ystyried a yw hi'n briodol lleihau'r cwota er mwyn i'r BBC barhau i fodloni anghenion cynulleidfaoedd a chyfrannu at waith y BBC o gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae cyflwyniad y BBC yn cyfeirio at newidiadau eraill (fel newyddion ar-lein) hefyd. Rydyn ni wedi ystyried y rhain ond nid ydynt yn golygu bod angen amrywio'r Drwydded Weithredu.

3.17 Er bod data cyfyngedig ar gael, dywed y BBC fod perfformiad BBC Radio Foyle wedi gostwng mewn perthynas â BBC Radio Ulster, a'i fod yn credu bod perfformiad Foyle yn gyson â'r duedd gyffredinol (o ostyngiad mewn cynulleidfaoedd radio). Nodwn fodd bynnag nad oes modd dweud a yw lleihau'r allbwn newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle wedi cyfrannu at y newidiadau hyn mewn lefelau gwrando.[13]

3.18 Mae ein dadansoddiad yn dangos bod cynulleidfaoedd hŷn yn tueddu i ddibynnu mwy ar wasanaethau darlledu llinol na chynulleidfaoedd iau ac, fel y nodwyd gennym uchod, mae proffil cynulleidfa hŷn ar gyfer BBC Radio Ulster/Foyle. O ganlyniad, mae unrhyw effaith y mae'r lleihad yn allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC yn ei chael yn debygol o daro'r grwpiau cynulleidfa hŷn yma yn drymach. Fodd bynnag, nid yw'r cynulleidfaoedd hyn yn dibynnu'n llwyr ar y radio i gael eu newyddion; maen nhw'n dweud mai'r teledu yw eu ffynhonnell newyddion bwysicaf a'u bod yn symud fwy a mwy ar-lein hefyd. Nodwn hefyd fod niferoedd cyffredinol cynulleidfa'r orsaf yn isel ac felly mae'r posibilrwydd o effeithiau negyddol ar gynulleidfaoedd neu ar gyflawni Diben Cyhoeddus 1 yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn.

3.19 Hefyd, mae'n rhaid i'r BBC wasanaethu pob cynulleidfa, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau sy'n dibynnu mwy ar allbwn ar-lein. Mae gan y cynulleidfaoedd hyn ddiddordeb hefyd mewn newyddion a materion cyfoes lleol yng Ngogledd Iwerddon, ac mae'n bwysig bod y BBC yn gallu darparu'r cynnwys hwn i gynulleidfaoedd lle maen nhw. Fel y nodwyd, mae'r BBC wedi wynebu cyfyngiadau ariannol sylweddol ac mae wedi amlinellu, er mwyn gallu darparu mwy o wasanaethau ar-lein, ei fod wedi gorfod lleihau gwariant ar wasanaethau llinol er mwyn gallu ailfuddsoddi ar-lein.

[10] Dolen i gyflwyniad y BBC, tudalen 17, paragraff 3.3

[11] Mae'r data RAJAR diweddaraf ar gyfer Ch1 2025 yn dangos mai'r cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog erbyn hyn yw 439k o oedolion dros 15 oed.

[12] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.17.

[13] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.18. Mae'r BBC yn gwneud y gymhariaeth hon gan ddefnyddio data BBC Sounds a chyfran y ceisiadau am gynnwys Radio Foyle o'i gymharu â'r rhai ar gyfer Radio Ulster/Foyle yn gyffredinol.

3.20 Dywed y BBC fod yr ailfuddsoddi hwn (sy'n cael ei drafod ymhellach isod) wedi gwella ei arlwy ar-lein a'i fod hefyd wedi bod o fudd i gynulleidfaoedd ar BBC Radio Foyle. Yn 2023, fe wnaethom ofyn i'r BBC egluro'r dull gweithredu roedd wedi'i ddefnyddio ar gyfer y newidiadau. Dywedodd wrthym y byddai targedu rhywfaint o ymdrech ac adnoddau newyddiadurol BBC Radio Foyle ar raglen newyddion am straeon yn ei ardal ddarlledu yn darparu gwerth golygyddol ychwanegol, ac yn osgoi dyblygu ei raglen newyddion ar draws y rhanbarth. Ar y pryd (hy cyn i'r newidiadau gael eu gwneud), dywedodd fod llawer o'r un straeon yn cael sylw gan *Good Morning Ulster* (ar BBC Radio Ulster) a rhaglen BBC Radio Foyle, *Breakfast on Foyle*. Dangosodd ei ddadansoddiad bod yr ystod y straeon cwbl leol o ardal Foyle sy'n cael sylw ar *Breakfast on Foyle* yn unig yn cyfrif fel arfer am 2-15% o eitemau ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos.[14] Ei nod oedd manteisio i'r eithaf ar effaith a gwerth gwasanaethau newyddion y BBC o, ar gyfer ac am ogledd-orllewin Gogledd Iwerddon.

3.21 Yn dilyn y newidiadau, mae'r BBC yn datgan ei fod, ar gyfartaledd, wedi darlledu 1.1 yn fwy o straeon lleol yr awr ar *North West Today* nag a wnaeth ar *Breakfast ar Foyle*. Roedd hefyd yn darlledu mwy o straeon bob awr ar *North West Today* o'i gymharu â *Breakfast on Foyle*.[15] Rydyn ni'n ystyried hyn yn dystiolaeth bod gan y newid hwn y potensial i fod o fudd i gynulleidfaoedd a chyfrannu at Ddiben Cyhoeddus 1.

## Ystyried y newidiadau eraill i allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC

3.22 Mae'r BBC wedi dweud o'r blaen mai rhan o'r rheswm dros y newidiadau oedd gwella'r sylw a roddir i ogledd-orllewin Gogledd Iwerddon ar wefan BBC News Northern Ireland. Yn ychwanegol, nod y newidiadau oedd ehangu a moderneiddio cylch gwaith ei waith casglu newyddion yn Derry/Londonderry, gyda'r nod o ddarparu mwy o eitemau newyddion o'r ardal ac o ogledd-orllewin Gogledd Iwerddon yn fwy cyffredinol ar gyfer y wefan ac ar gyfer BBC Radio Ulster.

3.23 Mae'r BBC yn nodi yn ei gyflwyniad ei bod yn ymddangos bod y newidiadau hyn wedi bod yn llwyddiannus, gan ei fod wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio gwefan newyddion BBC Northen Ireland o BBC Radio Foyle ar ôl darparu rhagor o gynnwys. Mae'n dweud bod cyfanswm nifer y straeon am Foyle a gyhoeddwyd wedi cynyddu i 449 yn 2024/25 (cynnydd o 8% ers 2023/24 a chynnydd o 15% ers 2022/23). Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod hyn yn cyd-daro â chynnydd mewn traffig wythnosol cyfartalog i 217k (i fyny o 178k yn 2023/24 a 160k yn 2022/23).[16]

3.24 Ar ben hynny, mae'r BBC yn amlinellu bod cyfran y straeon newyddion sy'n benodol am ardal Foyle o'i gymharu â chyfanswm nifer y straeon sy'n rhoi sylw i Ogledd Iwerddon yn gyffredinol wedi cynyddu rhywfaint. Dywed fod hyn hefyd yn wir am draffig ar-lein wythnosol cyfartalog Foyle fel cyfran o holl draffig wythnosol cyfartalog Gogledd Iwerddon. Mae'n credu bod hyn yn dangos bod ei strategaeth i symud cynulleidfaoedd o allbwn darlledu i allbwn digidol yn gweithio.

[14] Ymateb y BBC i gwestiynau Ofcom, 6 Chwefror 2023.
[15] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.18. Dadansoddiad o ddata OpenMedia. Mae'r data'n cymharu straeon a ddarlledwyd ar *Breakfast on Foyle* rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 â straeon a ddarlledwyd ar *North West Today* rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025.
[16] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.18.

3.25 Rydyn ni'n credu y gallai'r ffaith fod y BBC yn darparu mwy o gynnwys newyddion lleol ar-lein, ac ar yr un pryd yn darparu newyddion lleol penodol ar BBC Radio Foyle, fod o fudd i gynulleidfaoedd nawr ac yn y tymor hir, ac mae'n cyfrannu at Ddiben Cyhoeddus 1 y BBC.

### Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer yr holl gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon

3.26 Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu pob cynulleidfa ledled Gogledd Iwerddon yn effeithiol drwy ddarparu cynnwys newyddion a materion cyfoes lleol perthnasol. Os caiff y cais ei gymeradwyo, byddem yn disgwyl i'r BBC barhau i fonitro effaith y newidiadau hyn a chasglu adborth gan gynulleidfaoedd i gadarnhau ei fod yn bodloni eu hanghenion. Byddem yn disgwyl i'r BBC adrodd ar berfformiad yn ei Adroddiad Blynyddol. Rydyn ni hefyd yn nodi bod y BBC wedi dweud yn ei gyflwyniad y bydd yn monitro perfformiad y newidiadau i BBC Radio Foyle a'i gynnig newyddion digidol drwy ei brosesau adrodd safonol.[17]

3.27 Rydyn ni'n falch bod y BBC eisoes wedi dangos ei fod yn asesu effaith ei newidiadau yn rheolaidd, gan wrando ar gynulleidfaoedd ac yn addasu yn ôl yr angen, sy'n cael ei adlewyrchu gan y newid a wnaeth y BBC i gynyddu rhaglenni i awr o fis Ionawr 2024 ymlaen. Dywedodd y BBC wrthym fod y newid hwn wedi'i wneud mewn ymateb i adborth gan wrandawyr a gwaith datblygu gan dîm perthnasol y BBC.[18]

3.28 Mae ein dadansoddiad ein hunain ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024 pan oedd y newidiadau newydd gael eu rhoi ar waith yn dangos bod gwrandawyr wythnosol BBC Radio Ulster/Foyle yn llawer mwy bodlon ar y BBC na'r oedolyn cyffredin yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys gwrandawyr BBC Radio Foyle, roi sgôr i'r BBC ar gyfer '*newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn fy ardal leol*', rhoddwyd sgôr llai boddhaol o'i gymharu ag agweddau eraill ar allbwn newyddion y BBC.[19] Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC bwyso a mesur hyn wrth iddo asesu ei berfformiad, a byddwn yn parhau i fonitro hyn yn y dyfodol.

3.29 Bydd y gofynion tryloywder presennol sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r Drwydded Weithredu yn helpu i fonitro perfformiad y BBC. Mae'r gofynion hyn yn golygu bod yn rhaid i'r BBC gyhoeddi, ar yr un pryd ag y mae'n cyhoeddi ei Gynllun Blynyddol, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.[20] Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom gan y BBC i'n galluogi i fonitro ac asesu perfformiad yn ehangach, byddwn yn gofyn amdani.

## Yr effaith ar gystadleuaeth

3.30 Rydyn ni'n nodi, ers i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith, nad yw rhanddeiliaid wedi codi unrhyw bryderon posib ynghylch cystadleuaeth gyda ni. Yn ei gyflwyniad, mae'r BBC yn datgan nad yw'n credu bod y newidiadau wedi cael unrhyw effaith ar gystadleuaeth. Ar ben hynny, o ystyried y lefelau gwrando isel, ni fyddem yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

---

[17] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.19.
[18] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.16.
[19] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022-24
[20] Y Drwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, amodau 4.67 a 4.68.

## Casgliadau cychwynnol

3.31 Mae angen i'r BBC allu gwneud newidiadau i'w wasanaethau radio ac ar-lein wrth i arferion cynulleidfaoedd o ran cyfryngau barhau i newid. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried cyd-destun cyfyngiadau ariannol y BBC a'r ffaith bod y Siarter a'r Cytundeb yn mynnu ei fod yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa.

3.32 O ystyried yr amcangyfrif isel o ffigurau cynulleidfa BBC Radio Foyle a'r ffaith bod cynulleidfaoedd yn cael eu cynnwys newyddion a materion cyfoes ar-lein i raddau mwy a mwy, rydyn ni'n cynnig, yn amodol ar ymgynghoriad, cytuno i gais y BBC.

3.33 Nodwn hefyd, yn dilyn y newidiadau, fod cynulleidfaoedd BBC Radio Foyle nawr yn elwa ar gynnydd yn nifer y straeon lleol sydd ar gael iddynt bob awr yn y sioe frecwast newydd. Felly, rydyn ni'n credu y gallai'r newidiadau cyffredinol fodloni anghenion cynulleidfaoedd yn well.

3.34 Os byddwn yn cymeradwyo'r newidiadau, byddwn yn monitro perfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon yn ofalus fel y nodir uchod.

### Ein newidiadau arfaethedig i'r drwydded

3.35 Felly, rydyn ni'n cynnig lleihau cwota newyddion a materion cyfoes BBC Radio Foyle o 1,043 awr i 710 awr ym mhob blwyddyn ariannol, a bod y newid hwn yn dod i rym o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

3.36 Mae'r union ddiwygiadau rydyn ni'n eu cynnig eu gwneud i'r Drwydded Weithredu, yng ngoleuni'r Cais a'n hasesiad, yn cael eu cyflwyno yn Atodiad 2.

| |
|---|
| Ydych chi'n cytuno ag asesiad cychwynnol Ofcom a'r newidiadau y mae'n bwriadu'u gwneud i'r Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib. |

# 4. Cwota newyddion a materion cyfoes BBC Asian Network

## Cefndir

4.1 Mae BBC Asian Network yn orsaf radio sy'n darparu cerddoriaeth, newyddion ac adloniant wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig sydd ar gael ar DAB+ a BBC Sounds. O dan Amod 1.16.1 o'r Drwydded Weithredu, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu o leiaf 1,224 awr o gynnwys newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network ym mhob blwyddyn ariannol.

4.2 Yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2024/25, nododd y BBC sut roedd yn parhau i adolygu opsiynau ar gyfer egluro brand gorsaf BBC Asian Network a newid ffocws elfennau o'i raglenni i sicrhau'r effaith fwyaf bosib i gynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig. Nododd yn flaenorol y gallai'r newidiadau arfaethedig olygu bod angen diwygio ei Drwydded Weithredu.[21]

## Cais y BBC

4.3 Ym mis Ebrill 2025, cyflwynodd y BBC ei gais i Ofcom yn gofyn am newidiadau i'r Drwydded Weithredu ar gyfer ei ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network. Roedd yn cynnig lleihau ei gwota darlledu gofynnol o 1,224 awr i 675 awr ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r newid arfaethedig wedi'i nodi yn Atodiad 2 yr ymgynghoriad hwn.

4.4 Dywedodd y BBC wrthym fod ei gais yn seiliedig ar ddau brif ffactor: yr angen i arbed costau, yn ogystal â cheisio gwasanaethu ei gynulleidfa darged o Asiaid Prydeinig ifanc yn well. Mae'n datgan ei bod yn ofynnol i BBC Asian Network, fel pob rhan o'r BBC, wneud arbedion gan barhau i ddarparu gwerth am arian i gynulleidfaoedd a chynnig rhaglenni newyddion a materion cyfoes sy'n addysgiadol, yn berthnasol ac yn ddifyr. Mae hefyd yn nodi sut mae gostyngiad yn nifer y bobl iau sy'n gwrando ar y radio yn golygu bod angen newid rhaglenni er mwyn bod yn well am ennyn diddordeb y cynulleidfaoedd hyn sy'n troi fwy a mwy at gynnwys ar-alw a llwyfannau digidol.[22]

4.5 Mae'r BBC yn dweud y byddai lleihau'r cynnwys newyddion a materion cyfoes yn caniatáu rhagor o fuddsoddiad mewn cynnwys mwy unigryw, gan gynnwys cerddoriaeth newydd a chynnwys llafar sy'n cael effaith fawr. Er mwyn bodloni gofynion y gynulleidfa, dywed y BBC fod angen iddo gynnig cerddoriaeth fwy parhaus gan artistiaid Asiaidd Prydeinig newydd o'r DU mewn slotiau allweddol, gan gynnig brand unigryw o gerddoriaeth sy'n taro tant â chynulleidfaoedd. Er ei fod yn cynnig lleihau nifer y rhaglenni newyddion a materion cyfoes, mae'n dweud y byddai'n newid ei allbwn newyddion i'w wneud yn fwy effeithiol ac atyniadol i gynulleidfaoedd.[23]

[21] Cynllun Blynyddol y BBC 2023/24, t.43-44.
[22] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.2 a t.3.
[23] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.7 a t.12.

4.6 Dywed y BBC fod BBC Asian Network yn rhan bwysig o'i bortffolio radio, gan ei fod yn darparu "cynrychiolaeth lwyr" o grŵp ethnig leiafrifol yn y DU, gan adrodd o'r gymuned ac ar ei chyfer, a darparu cynhwysiant diwylliannol i gynulleidfaoedd ledled y DU. Fodd bynnag, mae'r BBC yn dadlau bod angen i'r orsaf addasu i newidiadau mewn arferion gwrando er mwyn aros yn berthnasol ac yn effeithiol. Mae'n dweud bod angen amserlen sy'n manteisio ar gyfleoedd gwrando allweddol ac sy'n darparu cynnwys i gynulleidfaoedd ar adegau sy'n addas iddyn nhw, yn ogystal â rhaglenni y gellir eu haddasu i fformatau sy'n cefnogi gwrando'n ddigidol.[24]

4.7 Er mai dim ond newidiadau sy'n effeithio ar sut mae'r BBC yn cyflawni amodau ei Drwydded Weithredu y byddai angen i Ofcom eu cymeradwyo, mae'r BBC yn nodi y byddai lleihau'r cwota yn ei alluogi i wneud amrywiaeth o newidiadau eraill i'r amserlen a newidiadau golygyddol eraill, sydd wedi'u dylunio i sicrhau'r effaith fwyaf bosib i gynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig. Yn gryno, ac ar yr amod bod Ofcom yn cytuno i leihau'r cwota newyddion a materion cyfoes, mae'r BBC yn bwriadu:

a) Datgomisiynu sioe *Ankur Desai* (sy'n cael ei darlledu o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 3pm a 6pm ar hyn o bryd) a'i theitlau cysylltiedig, *60 Minutes* ac *Asian Network News Presents*;
b) Comisiynu rhaglen sgwrsio newydd ar BBC Asian Network, sy'n cynnwys trafodaethau ar bynciau llosg a'r newyddion diweddaraf, dadansoddiadau manwl a chyfranogiad cynulleidfaoedd, a ddarlledir ar ddydd Llun rhwng 8pm a 10pm;
c) Cynnal newyddion rheolaidd drwy gyd-ddarlledu bwletinau newyddion drwy gydol yr wythnos a bwletinau *Newsbeat* wedi'u teilwra ar gyfer gwrandawyr iau amser cinio (12.45 i 13.00) a diwedd y prynhawn (17.45 i 18.00);[25]
d) Comisiynu rhaglen newydd sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth i gefnogi artistiaid Asiaidd Prydeinig newydd, gan ddarlledu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 15.00 a 17.45;
e) Cadw'r rhaglen fusnes, *The Everyday Hustle*.

4.8 Mae'r BBC hefyd yn bwriadu cyflwyno rhai rhaglenni materion cyfoes annibynnol ar yr orsaf. Ni fyddai hyn yn rhan o'r amserlen reolaidd ond byddai'n cyfrannu tua 10 i 20 awr o raglenni materion cyfoes / sgwrsio amserol bob blwyddyn.

## Y cyd-destun

4.9 Mae'r adran hon yn edrych ar gyd-destun cynnig y BBC, gan gynnwys y newid yn arferion cynulleidfaoedd o ran cyfryngau. Fel y nodir uchod, mae incwm y BBC wedi cael ei leihau'n sylweddol ac mae angen iddo weithio gyda llai o gyllideb, gan barhau i gyflawni ei rwymedigaethau i wasanaethu pob cynulleidfa.


[24] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.12. Mae hefyd yn dweud, y tu allan i gerddoriaeth Asiaidd, nad yw cynulleidfaoedd yn ymwybodol o beth arall sydd gan yr orsaf i'w gynnig o ran allbwn llafar, a hynny ar radio llinol ac ar BBC Sounds. (Cyflwyniad y BBC, tudalen 4 – ymchwil o sesiynau cynulleidfa BBC Virtual In Person, Rhagfyr 2022).

[25] Mae bwletinau *Newsbeat* yn cael eu darlledu ar yr un pryd â BBC Radio 1 a BBC Radio 1Xtra. Ar hyn o bryd, dim ond ar ddydd Gwener y caiff bwletinau estynedig diwedd y prynhawn *Newsbeat* eu darlledu. O dan y cynlluniau hyn, byddai'r BBC yn ychwanegu bwletinau estynedig diwedd y prynhawn ychwanegol o ddydd Llun i ddydd Iau.

## Mae arferion cynulleidfaoedd yn parhau i newid: mae cynulleidfaoedd iau yn benodol yn gwrando llai ar radio byw

4.10 O ganlyniad i'r newid parhaus o lwyfannau darlledu traddodiadol i lwyfannau ar-lein ac ar-alw, mae'n rhaid i'r BBC ymateb drwy addasu ei wasanaethau i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd lle maen nhw'n dewis cael gafael ar gynnwys. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod gwrando ar unrhyw gynnwys radio (fel cyfran o'r holl wrando ar sain) ymysg pobl ifanc 15-34 oed wedi gostwng naw pwynt canran ers 2018, ac mae gwrando ar sain wedi'i ffrydio/storio wedi cynyddu 10 pwynt canran. Mae'r ffigurau ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd iau yn dangos tuedd tebyg – roedd gwrando ar gynnwys radio wedi gostwng o 39% yn 2018 i 27% yn 2024, a gwrando ar sain wedi'i ffrydio/storio wedi cynyddu 13 pwynt canran, o 48% i 61%.

**Ffigur 1: Cyfran yr amser yn gwrando ar sain bob wythnos yn ôl grwpiau demograffig allweddol: cymharu 2018 a 2024**




*Ffynhonnell: IPA TouchPoints SuperHub 2024*

*Sylwch: Mae radio'n cynnwys radio byw ar unrhyw ddyfais, radio ar-alw a phodlediadau radio; Mae sain wedi'i ffrydio/storio yn cynnwys ffrydio cerddoriaeth, cerddoriaeth ddigidol wedi'i storio a phodlediadau heb fod yn rhai radio; Mae sain arall yn cynnwys fideos cerddoriaeth sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwrando yn y cefndir, cerddoriaeth ar CDs, finyl neu gasetiau, a llyfrau sain*

## Mae'r lefelau gwrando ar BBC Asian Network wedi aros yn weddol sefydlog ymysg pobl 25-34 oed ond mae gwrandawyr hŷn bellach yn cyfrif am fwy o gynulleidfa'r orsaf

4.11 Mae data RAJAR yn dangos bod y nifer sy'n gwrando ar yr orsaf wedi cynyddu'n gyffredinol ers Ch1 2022.[26] Yn Ch1 2025 roedd 569,000 o oedolion yn gwrando arni bob wythnos ar gyfartaledd. Roedd oedolion Asiaidd yn cynrychioli 79% o'r gynulleidfa. Mae cyrhaeddiad ymysg oedolion 25-34 oed wedi bod yn gymharol sefydlog, er ei fod wedi gostwng ymysg y grŵp oedran 15-34 ehangach.[27]

4.12 Yn gyffredinol, er bod lefelau gwrando'n gallu amrywio ymysg gwahanol grwpiau demograffig, yn gyffredinol mae'r cynnydd mewn gwrando wedi dod gan gynulleidfaoedd hŷn (gweler Ffigur 2). Mae gwrandawyr dros 35 oed bellach yn cyfrif am 63% o gynulleidfa'r orsaf, o'i gymharu â 57% yn Ch1 2022.

**Ffigur 2: Tueddiadau yng nghyrhaeddiad wythnosol cyffredinol (miloedd) BBC Asian Network**

| | **Ch1 2022** | **Ch1 2023** | **Ch1 2024** | **Ch1 2025** | **Newid yn Ch1 '25 o'i gymharu â Ch1 '22** |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion dros 15 oed | 532 | 458 | 513 | 569 | 7% |
| **... Oedolion 15-34 oed** | 230 | 180 | 199 | 210 | -9% |
| ... 15-24 oed | 129 | 76 | 110 | 111 | -14% |
| ... 25-34 oed | 101 | 105 | 89 | 99 | -2% |
| ... 35-54 oed | 228 | 206 | 234 | 280 | 23% |
| ... Dros 55 oed | 74 | 72 | 80 | 79 | 7% |
| Pobl Asiaidd dros 15 oed | 418 | 349 | 433 | 452 | 8% |
| **... Pobl Asiaidd 25-34 oed** | **78** | **86** | **70** | **80** | 2% |

*RAJAR Ch1 2022 i Ch1 2025, pwysoliad 12 mis.*

## Mae cynulleidfaoedd iau yn fwy tebygol o gael gafael ar newyddion drwy lwyfannau ar-lein

4.13 Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod cynulleidfaoedd iau, gan gynnwys pobl rhwng 25 a 34 oed, yn llai tebygol o gael eu newyddion drwy wrando ar y radio o'i gymharu â'r teledu ac ar-lein. Oedolion iau sydd fwyaf tebygol o gael gafael ar newyddion ar lwyfannau ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael eu defnyddio gan 81% o bobl 16-24 oed ac

[26] Sylwch: Roedd RAJAR wedi gohirio ar ôl Ch1 2020 oherwydd y cyfyngiadau symud, gan ailddechrau yn Ch3 2021. Fodd bynnag, gan fod ein dadansoddiad yn defnyddio pwysoliad 12 mis, bydd rhai dyddiaduron sydd wedi'u cynnwys yn ffigurau Ch1 2022 yn perthyn i'r cyfnod cyn Covid yn hytrach na'r 12 mis gwirioneddol hyd at ddiwedd Ch1 2022.

[27] RAJAR. Er bod y BBC yn nodi mai cynulleidfa darged strategol yr orsaf yw pobl 25-34 oed, rydyn ni hefyd yn cynnwys dadansoddiad ar gyfer diffiniad ehangach o gynulleidfaoedd iau (pobl 15-34 oed), o ystyried bod newidiadau yn y nifer sy'n gwrando ar y radio hefyd yn berthnasol i gynulleidfaoedd ifanc yn fwy cyffredinol.

80% o bobl 25-34 oed. Ar yr un pryd, dim ond 28% o bobl 16-24 oed a 32% o bobl 25-34 oed sy'n cael newyddion drwy'r radio.[28]

4.14 Cafodd *Ankur Desai*, y brif raglen newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network, ei lansio ym mis Hydref 2021 fel rhan o nifer o newidiadau eraill i amserlenni.[29] Mae cynulleidfaoedd cyffredinol ar gyfer y slot hwnnw wedi cynyddu o'i gymharu â blwyddyn lawn gyntaf data RAJAR ar gyfer y rhaglen newydd, gyda chyfartaledd o 169,000 o oedolion yn gwrando bob wythnos bellach, ond mae'r cynulleidfaoedd hyn yn dal yn is na'r rhai a welwyd cyn y newid hwn.[30]

4.15 Mae'r BBC hefyd yn nodi yn ei gyflwyniad bod canfyddiadau'r ymchwil ansoddol ar raddfa fach y cynhaliodd ym mis Rhagfyr 2022 yn awgrymu, er bod cynulleidfaoedd Asiaidd iau wedi nodi BBC Asian Network fel gorsaf sydd wedi'i hanelu atynt, y tu hwnt i'w dewis o gerddoriaeth Asiaidd bod ystod lawn yr orsaf – ar radio llinol a BBC Sounds – yn dal yn anhysbys i raddau helaeth, yn enwedig ei chynnwys llafar.[31]

# Ein hasesiad a'n casgliadau cychwynnol

## Yr effaith ar gynulleidfaoedd

### Lleihau'r cwota newyddion a materion cyfoes

4.16 Fel y nodir uchod, mae'r BBC wedi gofyn am leihau cwota ei Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network fel rhan o'i gynlluniau i ddatgomisiynu ei raglen newyddion/materion cyfoes yn ystod y prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau (*Ankur Desai Show*) a theitlau cysylltiedig. Byddai'r rhaglenni eraill a ddisgrifir ym mharagraff 3.7 yn cyfrannu at y cwota is arfaethedig yn ei le, gan gynnwys slot materion cyfoes newydd ar nos Lun. Ein rôl ni yw asesu a fyddai lleihau'r cwota hwn yn dal yn galluogi'r BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd a chyfrannu at ei waith o gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

4.17 Nod y BBC yw cynyddu apêl BBC Asian Network i gynulleidfaoedd iau, gan eu bod yn troi fwy a mwy oddi wrth radio. Gan gydnabod gwahanol arferion pobl iau, dywed y BBC fod angen iddo newid amserlen yr orsaf er mwyn aros yn berthnasol. Er bod lefelau gwrando'r orsaf yn gyffredinol wedi cynyddu o'i gymharu â 2021/22, ar ôl adfer o ddirywiad yn y cyfamser, mae cynnydd yn y nifer sy'n gwrando wedi tueddu i ddod gan wrandawyr hŷn.

4.18 Mae gan y slot arfaethedig ar gyfer y rhaglen materion cyfoes newydd, (20:00-22:00 ar ddydd Llun) lefelau gwrando is na'r slot presennol yn ystod y dydd.[32] Mae'r BBC yn dweud bod y slot amser newydd arfaethedig hwn yn gyfnod mwy effeithiol ar gyfer trafodaethau ffurf hir am newyddion a materion cyfoes, a fyddai'n sefydlu "apwyntiad i wrando" ymysg cynulleidfaoedd.[33] Er mai mater i Fwrdd y BBC, nid Ofcom, yw penderfyniadau ynghylch amserlennu, rydyn ni'n disgwyl i'r BBC sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu allbwn materion cyfoes i'r cynulleidfaoedd hyn.

[28] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, 2025.
[29] Caiff ei ddarlledu rhwng 15.00 a 18.00 o ddydd Llun i ddydd Iau.
[30] RAJAR, pwysoliad 12 mis. Gwrandawodd 142,000 o oedolion yn Ch4 2022, y flwyddyn lawn gyntaf o ddata ers y newidiadau, i lawr o'r cyfartaledd o 193,000 yn Ch3 2021.
[31] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.4.
[32] Cyfartaledd o 20,000 o oedolion yn gwrando bob wythnos. RAJAR, Ch1 2025, pwysoliad 12 mis.
[33] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.8.

4.19 Mae'r BBC yn bwriadu cadw rhywfaint o newyddion yn ystod y slot prynhawn yn ystod yr wythnos rhwng 15:00 a 18:00, drwy slot cyd-ddarlledu *Newsbeat* newydd ar ddiwedd bob prynhawn yn ystod yr wythnos (17:45-18:00). Dywed y BBC, gan fod sylfaen gwrandawyr BBC Asian Network yn iau, ei bod yn bwysig ei fod yn cynnal arlwy newyddion cyson sy'n darparu newyddion i gynulleidfaoedd yn strategol. Mae'n dweud y byddai hyn yn cyd-fynd â hwyliau ac anghenion gwrandawyr modern, ac yn helpu i gadw gwrandawyr yr orsaf.[34] Er na fyddai'r allbwn hwn yn cael ei deilwra'n benodol i gynulleidfa BBC Asian Network, byddai'n dal yn darparu newyddion sy'n canolbwyntio ar wasanaethu cynulleidfaoedd iau, a fyddai'n cyfrannu at gyflawni Diben Cyhoeddus 1 yr orsaf.

4.20 Nodwn hefyd fod gan y rhaglenni materion cyfoes annibynnol ychwanegol y potensial i gyrraedd cynulleidfaoedd ychwanegol. Mae'r BBC yn datgan y byddai hyn yn cynnwys cwmpas ar gyfer adroddiadau ymchwiliol drwy ddarnau cynnwys annibynnol, sy'n galw am gynllunio a buddsoddi tymor hir nad ydynt yn cael eu cynnig ar hyn o bryd ar raglen *Newsbeat* arferol BBC Asian Network. Mae'r BBC yn nodi bod rhaglenni sy'n cynnwys digwyddiadau diwylliannol mawr wedi arwain at gynnydd sydyn mewn perfformiad ar BBC Asian Network, sy'n dangos gwerth cynnwys wedi'i guradu a darllediadau arbennig.[35] Rydyn ni'n credu bod cynnwys y rhaglenni hyn yn bwysig fel ffordd ychwanegol o wasanaethu cynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig gyda chynnwys sy'n ddiwylliannol berthnasol. Efallai y gallai hefyd gyfrannu at gynyddu lefelau bodlonrwydd ar BBC Asian Network ymysg y cynulleidfaoedd hyn.

4.21 Byddai lleihau'r allbwn newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network yn golygu y byddai llai o allbwn newyddion a materion cyfoes yn cael ei wneud yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig. Er bod y BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys newyddion, gan gynnwys mwy a mwy ar lwyfannau ar-lein, mae cynulleidfaoedd Asiaidd a chynulleidfaoedd ethnig leiafrifol yn gyffredinol yn llai tebygol o ddefnyddio'r BBC ar gyfer newyddion.[36] O ystyried y gostyngiad hwn mewn allbwn yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig, byddem yn disgwyl i'r BBC fonitro sut mae'n gwasanaethu'r cynulleidfaoedd hyn yn ehangach gyda'i gynigion newyddion a materion cyfoes. Os bydd y BBC, neu Ofcom wrth fonitro perfformiad, yn canfod bod y cynulleidfaoedd hyn yn llai bodlon ar yr allbwn newyddion a materion cyfoes, byddem yn disgwyl i'r BBC wneud cynlluniau i fynd i'r afael â hyn.

## Newidiadau arfaethedig eraill i BBC Asian Network

4.22 Yn ogystal â gwneud y newidiadau sy'n cael eu hamlinellu uchod, a fyddai'n effeithio ar faint o allbwn newyddion a materion cyfoes sy'n cyfrannu at ei gwota, mae'r BBC yn bwriadu cyflwyno rhaglen prynhawn/diwedd y prynhawn newydd ar gyfer BBC Asian Network yn lle *Ankur Desai*. Mae'n dweud y byddai hyn yn cynnwys cerddoriaeth Asiaidd Prydeinig newydd ac yn darparu cyfleoedd i dalentau'r DU, ac y byddai'n cyfrannu at gyflawni Diben Cyhoeddus 3.[37] Nid yw'r cynnig hwn yn golygu bod angen amrywio'r Drwydded Weithredu, gan ei fod yn newid golygyddol. Fodd bynnag, rydyn ni'n cytuno bod

---

[34] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.11.
[35] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.11-12.
[36] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025, mae 56% o gynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig a 60% o bobl o grwpiau ethnig leiafrifol yn cael gafael ar unrhyw newyddion gan y BBC – sy'n is o lawer na chyfran yr oedolion gwyn (68%). Sylwch fod y ffigur cynulleidfaoedd Asiaidd yn cynnwys cyfranogwyr Tsieineaidd ac Asiaidd eraill yn ogystal â'r rhai sy'n nodi eu bod o Dde Asia.
[37] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.12.

angen i'r BBC barhau i ddod o hyd i ffyrdd unigryw o ddarparu cynnwys sy'n apelio at bob cynulleidfa.

### Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd BBC Asian Network

4.23 Pe baem yn cymeradwyo cynigion y BBC, byddem yn disgwyl i'r BBC barhau i adolygu effaith y newidiadau a mesur ymateb cynulleidfaoedd i sicrhau ei fod yn parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd Asiaidd y BBC drwy allbwn newyddion a materion cyfoes. Byddem yn monitro effaith y newidiadau fel rhan o'n rhaglen Perfformiad y BBC ac os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom gan y BBC i'n galluogi i asesu perfformiad yn y meysydd hyn, byddem yn gofyn amdani.

## Yr effaith ar gystadleuaeth

4.24 Wrth asesu a ddylid cymeradwyo newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC, mae'n rhaid i ni ystyried effaith bosib y newidiadau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

4.25 Mae'r BBC yn datgan yn ei Gais nad yw'n credu y byddai'r newidiadau arfaethedig i amserlen BBC Asian Network yn cael effaith sylweddol ar orsafoedd radio eraill. Mae'n datgan bod pum prif orsaf radio masnachol yn targedu cynulleidfaoedd Asiaidd. Mae'r rhain yn rhan o ddau grŵp: Sunrise Radio a Lyca Radio.

4.26 Mae'r BBC yn nodi mai BBC Asian Network yw'r unig orsaf radio yn y DU ar gyfer Asiaid Prydeinig sy'n rhoi lle blaenllaw i gerddoriaeth newydd gan artistiaid Asiaidd Prydeinig, tra bo Sunrise Radio (sydd ar gael ledled y DU) a Lyca Radio (sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd yn Llundain) yn canolbwyntio ar gerddoriaeth Bollywood. Mae'n nodi nad yw Sunrise Radio yn cynnig rhaglenni newyddion a materion cyfoes annibynnol ac mae gan Lyca Radio un awr o raglenni newyddion a materion cyfoes annibynnol. Mae gweddill yr amserlen yn cynnwys bwletinau newyddion ac adloniant.[38]

4.27 Mae'r BBC yn nodi ei fod yn ystyried y newidiadau arfaethedig fel penderfyniadau amserlennu arferol ac addasiadau i'r gymysgedd o genres, nad ydynt yn newid cymeriad cyffredinol yr orsaf yn sylweddol. O ganlyniad, mae'r BBC yn credu bod y newidiadau hyn y tu allan i gwmpas asesiad perthnasedd pellach.[39] Ein barn ni yw bod lleihau'r cwota newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network ei hun yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, yn enwedig o ystyried y gwahaniaethau yn allbwn BBC Asian Network a darparwyr eraill.

## Casgliadau cychwynnol

4.28 Rydyn ni'n ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y BBC yn gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU, bod ei wasanaethau'n unigryw a'i fod yn darparu newyddion a gwybodaeth. Rydyn ni hefyd wedi ystyried effaith bosib newidiadau arfaethedig y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

---

[38] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.14. Mae'n nodi bod Sunrise Radio hefyd wedi lansio Sunrise Smooth yn Llundain yn ddiweddar, ac mae Lyca Radio hefyd yn darlledu Lyca Gold yn Llundain, gan ganolbwyntio ar ganeuon Bollywood poblogaidd a chlasurol gyda rhaglen hel clecs ddyddiol a bwletin newyddion, ond dim rhaglenni newyddion a materion cyfoes annibynnol. Yn 2023, ehangodd Lyca i Fanceinion Fwyaf drwy brynu Asian Sounds Radio. Cafodd hyn ei ailfrandio i Lyca Radio – Greater Manchester ym mis Ebrill 2024.

[39] Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, t.15.

4.29 Rydyn ni'n cytuno bod angen i'r BBC allu gwneud newidiadau wrth i arferion gwrando barhau i newid er mwyn parhau i gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd. Mae'r dull hwn hefyd yn cefnogi'r amcanion sydd wedi'u hamlinellu yn y Drwydded Weithredu, sy'n pwysleisio'r angen am ragor o hyblygrwydd wrth ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd lle maen nhw'n dymuno gwylio a gwrando. O ystyried y newid parhaus mewn tueddiadau darlledu tuag at lwyfannau ar-lein – yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau a phobl o grwpiau ethnig leiafrifol – ar sail yr asesiad a nodir uchod, rydyn ni'n bwriadu cymeradwyo cais y BBC i leihau'r cwota newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Asian Network, gan gydnabod bod arferion cynulleidfaoedd.

4.30 Pe baem yn cymeradwyo'r newidiadau hyn, byddem yn monitro cynlluniau'r BBC yn ofalus ar gyfer darparu newyddion a materion cyfoes i gynulleidfa BBC Asian Network yn ei Gynlluniau Blynyddol a sut mae'n adrodd ar berfformiad fel rhan o'i adroddiadau blynyddol, gan gynnwys sut mae'n darparu newyddion ar-lein i gynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig yn fwy cyffredinol.

## Ein newidiadau arfaethedig i'r drwydded

4.31 O ystyried yr uchod, rydyn ni'n cynnig lleihau cwota newyddion a materion cyfoes BBC Asian Network o 1,224 awr i 675 awr ym mhob blwyddyn ariannol, a bod y newid hwn yn dod i rym o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

4.32 Mae'r union ddiwygiadau rydyn ni'n eu cynnig eu gwneud i'r Drwydded Weithredu, yng ngoleuni'r Cais a'n hasesiad, yn cael eu cyflwyno yn Atodiad 2.

Ydych chi'n cytuno ag asesiad cychwynnol Ofcom a'r newidiadau y mae'n bwriadu'u gwneud i'r Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network?

Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny lle bo modd.

# A1. Y Fframwaith Cyfreithiol

A1.1 Mae pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf),[40] sy'n nodi, at ddibenion rheoleiddio'r BBC, y bydd gennym bwerau a dyletswyddau o'r fath y gellir eu rhoi i ni gan neu o dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y Siarter)[41] a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y Cytundeb).[42]

A1.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 o'r Ddeddf hefyd yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC.[43] Mae'r rhain yn cynnwys ein prif ddyletswydd, sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n nodi bod yn rhaid i egwyddorion rheoleiddio fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried, fel sy'n briodol, egwyddorion penodol eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni. Rydyn ni'n credu bod yr egwyddorion canlynol yn y Ddeddf yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:

a) Y dymuniad i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;

b) Anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;

c) Barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol;

d) Y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol ardaloedd o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[44]

A1.3 O dan y Siarter, mae'n rhaid i Ofcom roi sylw i'r canlynol, fel sy'n ymddangos i ni'n berthnasol yn yr amgylchiadau, wrth gynnal ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC:[45]

a) Amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth[46] a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

b) Pa mor ddymunol yw diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU;

c) Y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol.[47]

---

[40] Adran 198 o'r Ddeddf.
[41] Y Siarter.
[42] Y Cytundeb.
[43] Erthygl 45(1) yn y Siarter.
[44] Adran 3(4) o'r Ddeddf.
[45] Erthygl 45(2) yn y Siarter.
[46] Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (Erthygl 5 yn y Siarter).
[47] Mae dyletswyddau cyffredinol y BBC wedi'u nodi yn Erthyglau 9 i 18 yn y Siarter ac maent yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y ddyletswydd i hyrwyddo arloesedd technolegol, gan gynnwys drwy ganolbwyntio ar arloesi technolegol i gefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU. Mae'r Cytundeb hefyd yn gosod rhai rhwymedigaethau cyffredinol ar y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys, yng Nghymal 61, gofyniad i'r BBC wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr eraill (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) yn gallu cael gafael ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a fwriedir ar eu cyfer, neu elfennau o'u cynnwys, mewn ystod o ffyrdd hwylus a chost-effeithiol sydd ar gael neu a all fod ar gael yn y dyfodol. Gallai'r

A1.4 O'r pum Diben Cyhoeddus,[48] mae'r canlynol yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:[49]

- Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas;
- Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau;
- Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny.

A1.5 Rydyn ni'n nodi, yn rhinwedd Erthygl 20(3)(d) yn y Siarter, ei bod yn rhaid i'r BBC bennu mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny lle bo'n briodol) a chasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU[50] wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r gwasanaethau cyhoeddus.[51]

A1.6 Ar wahân i hynny, rydyn ni'n nodi, yn rhinwedd Erthygl 46(4)(d) yn y Siarter, y gall Ofcom bennu mesurau perfformiad (yn ychwanegol at y rhai a bennwyd gan y BBC) ac y gall gasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus.[52] Hefyd, efallai y bydd Ofcom yn gofyn i'r BBC gasglu gwybodaeth o'r fath fel yr ydym yn credu sy'n angenrheidiol ar gyfer y mesurau perfformiad.[53]

A1.7 Yn ogystal â phennu mesurau perfformiad, mae'n rhaid i ni bennu Trwydded Weithredu (y Drwydded Weithredu) sy'n cynnwys set o amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw.[54] Mae'r Siarter yn datgan bod yn rhaid i'r Drwydded Weithredu gynnwys amodau rheoleiddio y mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:

a) Cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

b) Sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw;

c) Sicrhau bod cynulleidfaoedd yn yr Alban, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.[55]

A1.8 Mae Atodlen 2 o'r Cytundeb yn cynnwys rhai rheolau pellach ynghylch yr amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i Ofcom eu pennu drwy'r Drwydded Weithredu.

A1.9 Efallai y byddwn yn amrywio'r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac ag unrhyw berson sy'n briodol yn ein barn ni.

---

rhain gynnwys (er enghraifft) darlledu, ffrydio neu ddarparu cynnwys ar-alw, boed hynny drwy rwydweithiau daearol, lloeren, cebl neu fand eang (sefydlog neu ddi-wifr) neu drwy'r rhyngrwyd.

[48] Erthygl 6 yn y Siarter.

[49] Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed Diben Cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy BBC World Service a BBC Worldwide yn bennaf. Nid yw'r ail Drwydded Weithredu yn cynnwys BBC World Service; y BBC sy'n gyfrifol am bennu Trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb).

[50] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u nodi mewn rhestr sy'n cael ei chynnal a'i chyhoeddi gan y BBC: Rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU.

[51] Cymal 14(1) y Cytundeb.

[52] Cymal 14(2) y Cytundeb.

[53] Cymal 14(4) y Cytundeb.

[54] O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i Ofcom bennu Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

[55] Erthygl 46(3) yn y Siarter.

A1.10 Yn ogystal â phennu Trwydded Weithredu, mae'n rhaid i ni hefyd gyhoeddi fframwaith gweithredu.[56] Mae'r fframwaith gweithredu yn gyfres o ddogfennau sy'n edrych ar yr ystod lawn o'n dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn tri maes, sef safonau cynnwys, cystadleuaeth a pherfformiad. Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y 'Gweithdrefnau ar gyfer pennu a diwygio'r Drwydded Weithredu' (y 'Gweithdrefnau')[57] sy'n egluro sut rydyn ni'n pennu ac yn gweinyddu trefn y Drwydded Weithredu a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

A1.11 Mae'r Gweithdrefnau'n nodi'r ystyriaethau y bydd Ofcom yn rhoi sylw iddynt wrth bennu neu ddiwygio'r Drwydded Weithredu, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol perthnasol, natur orfodadwy amodau'r Drwydded Weithredu a pha mor ddymunol yw sicrhau bod amodau rheoleiddio yn glir ac yn gallu cael eu gorfodi os bydd diffyg cydymffurfio.[58]

[56] Erthygl 46(2) yn y Siarter a Chymal 5(1) o'r Cytundeb.
[57] Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd:Gweithdrefnau ar gyfer pennu a diwygio'r drwydded weithredu, 2017.
[58] Y Gweithdrefnau, paragraffau 1.11 i 1.20.

# A2. Amodau diwygiedig arfaethedig y Drwydded Weithredu

A2.1 Mae’r Atodiad hwn yn nodi amodau presennol y Drwydded Weithredu sy’n ymwneud â newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle a BBC Asian Network; ac mae’n cymharu hyn â’r amodau diwygiedig arfaethedig.

**BBC Radio Foyle**

A2.2 Dyma’r amod presennol – **4.66.2** – yn y Drwydded Weithredu:

a) [rhaid i’r BBC sicrhau] ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf **1,043 awr** yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Foyle.

A2.3 Rydyn ni’n cynnig diwygio’r amod fel a ganlyn:

a) [rhaid i’r BBC sicrhau] ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf **710 awr** yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Foyle.

**BBC Asian Network**

A2.4 Dyma’r amod presennol – **1.16.1** – yn y Drwydded Weithredu:

a) [Mewn perthynas â BBC Asian Network] rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf **1,224 awr** yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes ym mhob Blwyddyn Ariannol.

A2.5 Rydyn ni’n cynnig diwygio’r amod fel a ganlyn:

a) [Mewn perthynas â BBC Asian Network] rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf **675 awr** yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes ym mhob Blwyddyn Ariannol.

# A3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

A3.1 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010.[59] Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A3.2 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[60]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.3 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydyn ni'n asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A3.4 Er y byddai cynigion y BBC yn lleihau faint o gynnwys newyddion a materion cyfoes sydd ar BBC Asian Network a BBC Radio Foyle, sail y newidiadau yw'r ffaith bod y BBC yn awyddus i wasanaethu anghenion cynulleidfaoedd yn well, a'i fod yn buddsoddi mwy mewn gwasanaethau ar-lein a digidol ar adeg o gyfyngiadau ariannol sylweddol. Ar y cyfan, credwn fod y cynigion yn debygol o gael effaith niwtral i gadarnhaol ar gynulleidfaoedd BBC Asian Network a BBC Radio Foyle am y rhesymau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn.

A3.5 Credwn y gallai fod effaith negyddol ar rai cynulleidfaoedd hŷn o ystyried ei bod hi'n well gan rai cynulleidfaoedd hŷn gael eu newyddion gan wasanaethau radio. Fodd bynnag, credwn fod yr effaith negyddol bosib hon yn debygol o gael ei lliniaru. Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn yn cael eu newyddion drwy'r teledu ac maen nhw'n symud fwy a mwy ar-lein. Byddai hyn yn lleihau effaith y newidiadau.

A3.6 Mae hefyd yn bosib y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar rai grwpiau cynulleidfa. Er enghraifft, mae'r newidiadau i BBC Asian Network wedi'u dylunio i gyflawni'n well ar gyfer cynulleidfaoedd iau drwy greu cynnwys mwy unigryw, addasu'r amserlen er mwyn i Asiaid Prydeinig allu gwrando ar y cynnwys newydd hwn pryd bynnag sy'n hwylus iddynt, a darparu'r cynnwys hwnnw ar y llwyfannau sydd fwyaf priodol iddynt.

A3.7 O ran cynigion BBC Radio Foyle, nodwn fod y newidiadau y mae'r BBC wedi'u gwneud eisoes wedi arwain at gynnydd yn nifer y straeon am ogledd-orllewin Gogledd Iwerddon ar y gwasanaeth. Rydyn ni'n credu y gallai'r ffaith fod y BBC yn darparu mwy o gynnwys newyddion lleol ar-lein, ac ar yr un pryd yn darparu newyddion lleol penodol ar BBC Radio Foyle, fod o fudd i gynulleidfaoedd a helpu i wella'r cysylltiadau rhwng pobl o wahanol gymunedau.

---

[59] Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
[60] Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

A3.8 Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC adolygu effaith unrhyw newidiadau ar gynulleidfaoedd, er mwyn sicrhau, lle bo angen, ei fod yn parhau i addasu i'w gwasanaethu'n well. Byddem yn parhau i asesu perfformiad y BBC ac adrodd ar hyn fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Byddem yn croesawu ymatebion i'n hymgynghoriad ar yr effeithiau posib ar gydraddoldeb.

A3.9 Gall Ofcom ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau ar gais, e.e. PDF hygyrch, print bras, hawdd ei ddeall, recordiad sain neu braille. Os byddwch yn rhoi gwybod i ni pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ac ym mha fformat, byddwn yn ystyried y cais ac yn ymateb o fewn 21 diwrnod.

# A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A4.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 26 Mehefin 2025.

A4.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/changes-to-bbc-radio-foyle-and-bbc-asian-network. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A4.3 Os bydd eich ymateb ar ffurf ffeil fawr, neu os bydd yn cynnwys siartiau, tablau neu fathau eraill o ddata ategol, gofynnwn i chi ei anfon drwy e-bost i BBCOLChanges@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 26 Mehefin 2025.

A4.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Tîm Polisi Cynnwys
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A4.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

> anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
> gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A4.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A4.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A4.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A4.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai hi'n bosib i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A4.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sy'n codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i BBCOLChanges@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A4.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A4.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A4.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A4.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A4.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A4.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ar XXXX 20xx.

A4.17 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A4.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad x.

A4.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydyn ni'n rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydyn ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A4.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road

London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn glir ynghylch pwy rydyn ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosib. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydyn ni'n cynnal ein hymgyngoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Dywedwch wrthym sut daethoch chi ar draws yr ymgynghoriad hwn.**

- ☐ E-bost gan Ofcom
- ☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- ☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
- ☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- ☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
- ☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

## Is-bennawd (os oes angen)

**Cwestiwn 1: BBC Radio Foyle**

A ydych chi'n cytuno ag asesiad dros dro Ofcom a'i newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle? Os nad ydych, esboniwch pam, gan ddarparu tystiolaeth ategol briodol lle bo modd.

**Cwestiwn 2: BBC Asian Network**

Ydych chi'n cytuno ag asesiad dros dro Ofcom a'i newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network? Os nad ydych, esboniwch pam, gan ddarparu tystiolaeth ategol briodol lle bo modd.